

DYLECH WNEUD HYN GARTRE
#18
Yn cynnwys: Marfin a Milo
Yr hyn sydd ei angen arnoch: • Potel blastig 2 litr • 'Blu Tack' • Powlen o ddŵr • Pecyn bach o sos coch
Heddiw, byddwn yn troi'r pecyn bach hwn o sos coch yn blymiwr.
Vic Le Billon
Rhowch y pecyn bach o sos coch mewn powlen o ddŵr i weld a yw'n arnofio ar ei sefyll – os nad ydyw, rhowch ychydig o 'Blu Tack' ar ei waelod.
Llenwch botel 2 litr i'r top â dŵr.
Gwthiwch eich plymiwr sos coch i mewn drwy wddf y botel.
Rhowch y top ar y botel yn dynn, gwasgwch y botel yn galed a gwyliwch eich plymiwr yn plymio.
Mae gwasgu'r botel yn gwasgu popeth sydd ynddi, gan gynnwys y swigod aer sydd yn y pecyn bach o sos coch. Wrth i folecylau'r aer gael eu gwasgu, mae'r pecyn bach yn mynd yn fwy dwys na'r dŵr ac yn suddo. Beth sy'n digwydd pan fyddwch yn rhoi'r gorau i wasgu'r botel?